

Arolwg i Lawryddion 2023

–

Shw'mai!

Bydden ni'n hoffi eich help i gael gwell syniad o sut mae llawryddion yng Nghymru'n dod ymlaen. Bydd hyn yn ein galluogi i ffocysu ar y ffordd orau o roi help i'n gilydd: llawryddion yn cefnogi llawryddion.

Gofynnwn i chi fod mor onest ag sy'n bosib – cedwir eich ymatebion yn gwbl ddiennw.

–

Adran 1: Eich gyrfa llawrydd

Yn yr adran hon byddwn yn gofyn beth rydych chi'n ei wneud fel gweithiwr llawrydd. Mae'r hyn ry'n ni'n ei wneud ar draws y sector celfyddydol yn amrywio'n fawr iawn, felly ry'n ni'n ceisio cael gafael ar gymaint o ddata ag y gallwn ynghylch beth ry'ch chi'n ei wneud, a sut mae pethau'n mynd i chi. Bydd hyn yn ein helpu i ddod i'ch adnabod rywfaint yn well.

Mae rhai o'r cwestiynau'n ymwneud ag arian, ac ry'n ni'n sylweddoli bod hyn yn gallu bod yn bwnc sensitif. Atebwch dim ond y cwestiynau hynny ry'ch chi'n gyfforddus gyda nhw, ond gorau po fwyaf y gallwch ei ddweud er mwyn i ni roi o'n gorau i helpu a chefnogi llawryddion yng Nghymru wrth symud ymlaen.

–

1) Beth yw eich prif waith fel person llawrydd?

Hoffem wybod beth yw eich dewis chi o deitl eich swydd – rhywbeth byr a bachog (e.e. coreograffydd, artist gweledol, actor llais). Gofynnwn i chi beidio â defnyddio mwy na dau air.

Os ydych chi'n gwneud mwy nag un math o waith fel person llawrydd, dywedwch wrthym am yr hyn ry'ch chi'n ei wneud y rhan fwyaf o'r amser.

–

2) Ym mha sector/au celfyddydol ydych chi'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith llawrydd ynddo/ynddynt? Gallwch ddewis mwy nag un.

- A. Hysbysebu a marchnata
- B. Pensaernïaeth
- C. Crefftau
- D. Dylunio
- E. Ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth
- F. TG, meddalwedd, gemau fideo a gwasanaethau cyfrifiadurol
- G. Amgueddfeydd, orielau, treftadaeth a llyfrgelloedd

- H. Cerddoriaeth neu'r celfyddydau perfformio
- I. Cyhoeddi
- J. Y celfyddydau gweledol
- K. Arall

—

3) Beth yw eich statws cyflogaeth?

- A. Hunan-gyflogedig
- B. Cyflogai (PAYE)
- C. Y ddau uchod
- D. Arall

—

4) Ers pryd ry'ch chi wedi bod yn gweithio'n llawrydd yn y sector celfyddydol?

- A. 2 flynedd neu lai
- B. 2–5 mlynedd
- C. 5–10 mlynedd
- D. 10+ mlynedd

—

5) Ymhle mae eich gwaith llawrydd yn digwydd?

Gall hyn nodi o ble mae'r comisiwn wedi dod os yw'n waith ar-lein, neu ymhle mae'n digwydd yn gorfforol os yw'n cael ei wneud mewn lleoliad arbennig.

Bydd amcangyfrif agos yn ddigon da – does dim angen ceisio rhoi'r union ganran i ni.

Cymru	10%	20%	30%	40%	50%	60%	70%	80%	90%	100%
Gweddill y DU	10%	20%	30%	40%	50%	60%	70%	80%	90%	100%
Yn rhyngwladol	10%	20%	30%	40%	50%	60%	70%	80%	90%	100%

—

6) Faint o arian a enillwyd gennych chi (cyn treth a chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol) yn y flwyddyn dreth 2021/22?

- A. Llai na £1,000
- B. £1,001 - £5,000
- C. £5,001 - £10,000
- D. £10,001 - £15,000
- E. £15,001 - £20,000
- F. £20,001 - £25,000
- G. £25,001 - £30,000

- H. £30,001 - £35,000
- I. £35,001 - £40,000
- J. Mwy na £40,000
- K. Gwell gen i beidio â dweud

—

7) Ydy'r gwaith llawrydd ry'ch chi'n ei wneud wedi cynyddu neu ostwng o'i gymharu â'r lefelau cyn-bandemig (2020)?

- A. Wedi cynyddu'n sylweddol
- B. Wedi cynyddu ychydig
- C. Wedi aros yr un fath
- D. Wedi gostwng ychydig
- E. Wedi gostwng llawer
- F. Amherthnasol

—

8) Ydych chi wedi codi eich cyfraddau llawrydd yn unol â chwyddiant?

- A. Do
- B. Naddo
- C. Gwell gen i beidio â dweud

—

9) Gan feddwl am eich cynilion: a fyddech chi'n gallu talu eich rhent/morgais am y 3 mis nesaf ar yr arian ry'ch chi wedi'i gynilo?

I'ch atgoffa, mae pob ateb yn ddienw ond gallwch hepgor y cwestiwn os byddai'n well gennych beidio â rhannu.

- A. Byddwn
- B. Na fyddwn
- C. Gwell gen i beidio â dweud

—

10) Sut mae Brexit wedi effeithio ar eich gwaith fel person llawrydd yn y sector celfyddydol ers mis Ionawr 2021?

- A. Wedi colli gwaith yn yr Undeb Ewropeaidd, neu waith wedi ei ganslo
- B. Wedi gorfod gwneud cais am drwyddedau arbennig (e.e. Tystysgrif Offerynnau Cerdd)
- C. Anhawster i symud cerbydau gwaith rhwng y DU ac Ewrop
- D. Problemau gyda mewnfario neu allfario cyflenwadau
- E. Problemau gyda mewnfario neu allfario nwyddau

- F. Cydweithredu gyda dinasyddion yr UE yn fwy anodd
- G. Dwi ddim wedi sylwi ar unrhyw effaith ar fy ngwaith oherwydd Brexit
- H. Arall

–

11) Gan ystyried eich cefndir personol (yn cynnwys unrhyw rwystrau y gallech ddod ar eu traws yn y sector), ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth fel person llawrydd yn y sector celfyddydol?

–

12) Gan feddwl am ymarfer gorau yng nghyd-destun llawryddion: os gallech amlygu gwaith un sefydliad yn y maes celfyddydol yng Nghymru, pa un fyddech chi'n hoffi i ni wybod amdano? Mawr neu fach – dewiswch chi!

–

13) Gan feddwl am y dyfodol, pa un o'r datganiadau isod sy'n berthnasol i chi?

- A. Byddaf yn sicr yn aros yn y diwydiant
- B. Dwi'n debygol o aros yn y diwydiant
- C. Dwi ddim wedi penderfynu eto a fyddaf yn aros neu'n gadael y diwydiant
- D. Dwi'n debygol o adael y diwydiant
- E. Byddaf yn sicr yn gadael y diwydiant / Dwi eisoes wedi gadael y diwydiant
- F. Dwi wedi gadael y sector yn gyfan gwbl

–

14) Os ydych chi'n ystyried gadael y sector, neu wedi gwneud hynny eisoes, mae croeso i chi sôn wrthym am y penderfyniad. Nodwch eich sylwadau isod.

–

15) Oes 'na unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthon ni, neu ei rannu? Mae croeso i chi sgrifennu faint bynnag yr hoffech chi.

–

Adran 2: Dod i'ch adnabod chi

Ry'n ni bron yna!

Mae'r adran hon amdanoch chi fel person, fel bod modd i ni gael gwell syniad o bwy sy'n gweithio yn y sector ledled Cymru. Ry'n ni'n gwybod bod rhai o'r cwestiynau hyn yn gallu bod yn sensitif, a chaiff unrhyw ddata a gesglir ei ddefnyddio i wella'n dull o lobïo am gefnogaeth.

Mae eich holl atebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu recordio'n ddienw.

Er mai ein bwriad yw bod mor gynhwysol â phosib, ry'n n'n sylweddoli bod y defnydd o iaith yn amrywio o un person i'r nesaf. Os ydych chi'n defnyddio iaith sy'n wahanol i'r un a ddefnyddir yn y cwestiwn, mae croeso i chi ddewis 'Arall', a nodi'r disgrifiad ry'ch chi'n ei ffafrio.

—

16) Beth yw eich cod post yng Nghymru? Byddai rhan gyntaf eich cod post (e.e. SA31) yn ddigon.

—

17) Beth yw eich oedran?

- A. 18-24
- B. 25-34
- C. 35-44
- D. 45-54
- E. 55-64
- F. 65 a throsodd

—

18) Sut byddech chi'n disgrifio eich rhywedd?

- A. Benywaidd
- B. Gwrywaidd
- C. Anneuaidd
- D. Gwell gen i beidio â dweud
- E. Arall

—

19) Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson Anabl, Byddar neu Niwroamrywiol yn ôl y Model Cymdeithasol o Anabledd? (Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd o'r farn mai rhwystrau cymdeithasol sy'n anablu pobl, nid eu nam neu wahaniaeth.)

- A. Ydw
- B. Nac ydw
- C. Ansicr
- D. Gwell gen i beidio â dweud

—

20) Sut byddech chi'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig?

Mae'r rhain yn dermau eang, felly dewiswch yr un sy'n fwyaf addas i chi. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall amrywiaeth y llawryddion celfyddydol sy'n gweithio yng Nghymru.

- A. Unrhyw gefndir Asiaidd
- B. Unrhyw gefndir Du, Caribiaidd neu Affricanaidd
- C. Unrhyw grwpiau neu dreftadaeth cymysg neu ethnig
- D. Unrhyw gefndir Gwyn
- E. Unrhyw gefndir Romani, Sipsi neu Deithiwr
- F. Unrhyw grŵp ethnig arall

–

21) Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?

- A. Ydw, yn rhugl
- B. Ydw, dwi'n dysgu'r iaith
- C. Nac ydw, dwi ddim yn siarad Cymraeg

–

22) Gan feddwl yn ôl at pan oeddech chi'n 14 oed, pa un o'r isod fyddai'n fwyaf perthnasol i ddisgrifio gwaith y prif enillydd cyflog, neu enillydd y cyflog uchaf, yn eich cartref chi?

- A. Gwaith proffesiynol modern neu draddodiadol, e.e. athro, nyrs, plismon
- B. Rheolwr neu weinyddydd (unrhyw lefel), e.e. perchennog busnes mawr, rheolwr banc, rheolwr adwerthu
- C. Gwaith clerigol canolradd, e.e. ysgrifennydd/es, cynorthwy-ydd personol, cynorthwy-ydd gwerthu
- D. Gwaith technegol neu grefftus, e.e. peiriannydd, plymwr, trydanwr, gyrrwr trênn
- E. Gwaith arferol neu led-arferol, llafur llaw neu wasanaeth, e.e. labrwr, gwas fferm, swyddog diogelwch
- F. Perchennog busnes bach, e.e. siop y gornel, caffi neu dacsî
- G. Di-waith ers amser maith / erioed wedi ymgymryd â gwaith â thâl
- H. Wedi ymddeol
- I. Ansicr
- J. Gwell gen i beidio â dweud
- K. Amherthnasol

–

23) Bron iawn yna!

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr arolwg hwn!

Fydddech chi'n hoffi cael eich mapio ar Atlas Economi Greadigol Cymru?

- A. Byddwn
- B. Na fyddwn

C. Dwi eisoes ar y map

—

24) Os hoffech chi fod yn rhan o Atlas Economi Greadigol Cymru, nodwch eich cyfeiriad ebost isod, fel bod modd eich ychwanegu at eu bas-data.

Ni chaiff yr wybodaeth ei defnyddio i adnabod eich atebion, a chaiff ei rhannu'n unig gyda thîm Atlas Economi Greadigol Cymru i bwrpas eich ychwanegu at y map.

—

Diolch i chi am gwblhau'r arolwg hwn.